ANFON FY FFRIND 08

Addysg a Gwrthdaro

Oed: 8+

Ar gyfer y wers hon, bydd angen astudiaeth achos Pedro arnoch.

Gofynnwch i'r disgyblion edrych yn ofalus ar y llun o Pedro o'i astudiaeth achos – a dywedwch wrthyn nhw mai Pedro yw ei enw a pheidiwch â dweud dim byd arall wrthyn nhw. Gofynnwch iddyn nhw ddyfalu ble mae Pedro. Ydyn nhw'n meddwl ei fod yn hapus? Beth ydyn nhw'n meddwl mae e'n meddwl?

Trafodwch rai meddyliau ar gyfer Pedro, ysgrifennwch nhw ar nodion Post-It a glynwch nhw o gwmpas y ffotograff. Darllenwch stori Pedro a thrafodwch ei sefyllfa. Pam na allai Pedro fynd i'r ysgol am amser maith?

Gofynnwch i'r disgyblion feddwl eto am y swigod meddwl sydd o gwmpas y ffoto. Fydden nhw'n newid unrhyw ohonyn nhw? Pa swigod meddwl newydd fydden nhw'n ychwanegu?

11-14 oed

Ar gyfer y wers hon, bydd angen astudiaethau achos Pedro ac Eduardo.

Darllenwch storïau Pedro ac Eduardo.

Esboniwch fod plant yn colli'r cyfle i gael addysg oherwydd gwrthdaro mewn llawer o wledydd. Rhowch rai enghreifftiau megis Israel a Phalestine, Sierra Leone (lle daeth llawer o blant yn filwyr plant) a'r gwrthdaro yn Narfur.

Gofynnwch i'r disgyblion edrych trwy bapurau newydd a nodi sefyllfaoedd o gwmpas y byd lle mae pobl ifanc yn cael eu hatal rhag cael addysg oherwydd rhyfel a gwrthdaro. Gall disgyblion ddefnyddio'r erthyglau hyn i greu arddangosfa. Gallen nhw nodi'r gwledydd sydd wedi'u heffeithio ar fap o'r byd.

Mae 72 miliwn o blant yn colli'r cyfle i fynd i'r ysgol